FLAF02

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

**Cofnodion - 11 Gorffennaf 2023**

**Dyffryn Maes Glas**

---

**Yn bresennol** - Julian Pellatt, Huw Morgan, Neville Howell, Jeff Shone, Shirley Fermor, Sarah Hampson, John Holiday.

**Swyddogion yn bresennol** - Tom Woodall, Derrick Charlton, Stuart Jones, Natalie Davies, Adrian Owen Hibbert, Suzanne Williams, Mike Taylor, Rob Nursaw, Richard Flood.

**Arsylwyr -** Ian Hughes (Cyfoeth Naturiol Cymru), Eileen Morgan, Cathy Harrington

**Ymddiheuriadau** - Jonny Hulson, Marjorie Thompson, y Cynghorydd Dave Evans

## 1/ Croeso –

Fel Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol ac yn absenoldeb Cadeirydd etholedig, croesawodd TW bawb i ail gyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol. Cafwyd cyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau.

**Cam gweithredu -** Cardiau enw i'w cynhyrchu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 2/ Ethol Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol -

Cyflwynodd TW yr eitem hon ac eglurodd, yn dilyn y cyfarfod diwethaf pryd gofynnwyd i'r aelodau ystyried ymgymryd â rôl y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd, nad oedd neb yn dymuno gwirfoddoli i gynnig eu henwau. Roedd TW wedi gofyn yn anffurfiol i JP ac HM ystyried cynnig eu henwau. Cadarnhaodd JP ac HM y bydden nhw’n fodlon gwneud hynny. Gofynnodd TW i’r Fforwm a oedd unrhyw enwau eraill wedi’u cynnig. Ni chafwyd unrhyw gynigion eraill, a chafodd JP a HM eu hethol yn briodol.

Rhoddodd JP ac HM drosolwg byr o'u profiad a'u diddordebau. Gwnaeth TW ddiolch i’r ddau ohonynt.

## 3/ Cofnodion y cyfarfod blaenorol -

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 25 Ebrill wedi’u hysgrifennu.

### 3.a Materion yn Codi

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu'r Cylch Gorchwyl drafft. Mabwysiadodd yr Aelodau y telerau heb unrhyw newidiadau.

**4/ Trosolwg o deithio llesol a beicio –**

Rhoddodd Richard Flood, Rheolwr Cludiant Sir y Fflint, adroddiad ar lafar a diweddariad ar Deithio Llesol a beicio yn Sir y Fflint. Eglurodd bod gan yr Awdurdod 2 gynllun teithio llesol - rhwydwaith presennol ac arfaethedig. Dywedodd nad oes gan y Cyngor yr un cyllid ag sydd wedi bod ar gael yn y gorffennol, felly maen nhw'n gwneud cais am arian yn y dyfodol ar gyfer prosiectau newydd. Mae'n rhaid iddyn nhw ddangos sut maen nhw'n bodloni'r Ddeddf Cydraddoldeb i fodloni gofynion ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

Rhoddodd RF drosolwg o rai o'r prosiectau fel y trac rheilffordd o Gaer i Gei Connah y cafodd ei drawsnewid yn llwybr beicio a thrac beicio Afon Dyfrdwy. Eglurodd mai pwrpas teithio llesol yw annog pobl i fynd allan i ddefnyddio gwahanol ffyrdd o deithio er mwyn gallu cyrraedd trefi, ysgolion a gweithleoedd. Mae hefyd yn bwysig cysylltu trefi a siroedd a pheidio â stopio ar y ffin â Lloegr. Trwy weithio gyda siroedd eraill, Trafnidiaeth Cymru a Sustrans maen nhw wedi bod yn fwy llwyddiannus â cheisiadau am grantiau.

Rhoddodd RF y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r terfyn cyflymder 20 mya a fydd yn cael ei roi ar waith ar 23 Medi 2023. Mae'r ymgynghoriad yn dechrau'r wythnos yn dechrau 31/7/2023, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe Sir y Fflint:

https://mapdata.llyw.cymru/maps/roads-affected-by-changes-to-the-speed-limit-on-re/

Eglurodd hefyd sut mae Gorchmynion Eithrio yn gweithio a bod yn rhaid iddyn nhw fodloni meini prawf penodol i'w gweithredu.

Datgelodd cwestiynau gan aelodau Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint fod:

Bidiau blynyddol yn tua £1.5 miliwn - £2 filiwn.

Mae enillion cynllunio 'Taliadau Adran 106' gan ddatblygwyr yn gymesur â maint y datblygiad. Rheoli Datblygu sy'n cynhyrchu'r arian hwn.

Ni ellir defnyddio arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal a chadw llwybrau troed wrth ymyl y ffordd wedi'u creu gan Deithio Llesol.

Rhoddodd RN drosolwg o brosiectau:

Mae Airbus i Saltney Ferry wedi'i gwblhau.

Mae camau 1, 2 a 3 Dyffryn Maes Glas wedi'u cwblhau, ac mae gwaith yn cael ei wneud bellach ar y cam nesaf i Fagillt a'r Fflint o barc busnes Maes Glas.

Mae cam 1 a 2 o gysylltu Aston Hill ag Alltami wedi'u cwblhau, ac mae gwaith yn cael ei wneud bellach ar gylchfan Ewlo ac Wylfa.

Prynu Lower Aston Hall Lane i roi mynediad i Ysgol Uwchradd Penarlâg.

Yn y broses o brynu llain 9-metr o dir yn Sandycroft ar gyfer llwybr oddi ar y ffordd.

Dechrau edrych ar gysylltiad Ewlo ac Alltami.

Mae ganddyn nhw gyllid ar gyfer gwella mynediad i ddwy ysgol yn y Fflint a dwy ysgol yn Nhreffynnon, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 4/9/2023.

Gofynnodd NH a ellid defnyddio system debyg i Reoli Mynediad Cefn Gwlad i roi gwybod am broblemau ar y rhwydwaith beicio ar-lein.

Eglurodd RF y gallwch chi fewngofnodi i wefan Sir y Fflint i wneud cwyn am deithio llesol. Mae rhoi gwybod am gwynion ar-lein yn helpu i flaenoriaethu meysydd y mae angen eu cynnal a'u cadw.

Galwodd NH am deithio llesol i edrych ar lwybrau a fydd yn cysylltu â llwybrau cyhoeddus.

Gofynnodd JS am gynlluniau i gysylltu Bwcle ac Ewlo. Er nad oes cynlluniau wedi'u dewis yn y gorffennol, bydd RN yn edrych arnyn nhw eto o ran eu potensial yn y dyfodol.

**5/ Adolygiad Rhwystrau Mynediad –**

Rhoddodd TW drosolwg a chefndir y ddogfen y cafodd ei hanfon gyda’r rhaglen. Eglurodd TW y sefyllfa anodd y mae'r Awdurdod ynddi, wrth geisio cydbwyso'r angen i reoli defnydd anghyfreithlon o lwybrau a’r awydd a’r angen am well hygyrchedd. Ychwanegodd fod yr adroddiad hwn a gomisiynwyd yn ymgais i fwrw ymlaen i geisio gwella'r sefyllfa. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan y Cabinet a byddai barn y Fforwm yn mynd rhagddo i lywio eu penderfyniad ar yr argymhellion.

Mae Heddlu Gogledd Cymru o'r farn y dylai rhwystrau aros, oherwydd fel arall bydd gweithgarwch troseddol yn cynyddu.

Esboniodd MT fod gennym ni 47 o rwystrau yn y sir a dywedodd fod pob achos yn wahanol ac nad oedd yr un ateb yn addas i bob achos. Gallem ni edrych ar awdurdodau eraill a chymharu’n hunain â nhw o ran yr hyn y maen nhw wedi'i wneud.

Tynnodd EM sylw at rai o'r anawsterau y mae hi'n eu hwynebu fel unigolyn anabl sy’n defnyddio beic. Dywedodd mai pwrpas y gatiau yw atal beiciau modur ac ati ond y dylai hyn gael ei blismona’n gywir yn hytrach na chyfyngu ar ddefnyddwyr cyfreithlon gan eu bod nhw’n achosi rhwystr mawr i lawer o bobl. Os bydd gan fwy o gerddwyr ac unigolion sy’n defnyddio cymhorthion symudedd fynediad i'r llwybrau,

mae'n llai tebygol y bydd gan feicwyr modur ddiddordeb mewn ceisio eu defnyddio nhw gan y byddan nhw’n ofni y bydd eu hoffer nhw’n cael ei dynnu oddi wrthynt.

Dywedodd EM fod gan Sustrans leiafswm lled i rwystrau sef 1.5m ond bod rhai Sir y Fflint yn 90cm neu lai, felly nid yw’n cydymffurfio.
Dywedodd EM, gan gyfeirio at yr argymhellion penodol ar yr adroddiad, y dylid cael ‘dadansoddiad llwybr ysgubo’ a rhagor o ymgynghori â grwpiau pobl anabl. Ychwanegodd hi nad yw llawer o bobl anabl yn gallu defnyddio cloeon Radar a’i fod felly’n wahaniaethol a bod allweddi Radar ar gael ar y rhyngrwyd, sy’n golygu y gall unrhyw un eu prynu nhw, ac y byddai gatiau radar yn agored i gael eu camddefnyddio.

Soniodd CH ei bod hi'n cario llwyth mewn bagiau ar ochr ei beic a’i bod hi wedi methu mynd drwy'r giât ac nid yw hi’n anabl. Roedd CH yn credu bod dau fater ar wahân, sef 1. Sicrhau mynediad i ddefnyddwyr ag awdurdod a 2. Camau gorfodi i reoli'r beiciau modur.

Roedd RF yn credu bod yna wahaniaethu gan nad oedd Heddlu Gogledd Cymru yn gallu gorfodi defnydd anghyfreithlon o'r llwybrau a bod angen gwneud mwy o waith i ddeall y mater â grwpiau defnyddwyr penodol.

Soniodd MT am blant yn cael eu taro drosodd ar y llwybr o ganlyniad i feicwyr sy’n mynd yn rhy gyflym ac nad oedd wedi stopio ar ôl taro’r plant drosodd. Dywedodd fod arafu beicwyr â rhwystrau igam ogam wedi helpu'r heddlu i ddal unigolion sy’n gyrru beiciau modur yn y gorffennol.

Soniodd JH ei fod wedi mynd â gwirfoddolwyr allan bob wythnos a'i fod wedi cael trafferth mynd drwy'r rhwystrau.

Gofynnodd JP a ellid ystyried defnyddio is-ddeddfau. Ymatebodd RF fod deddfwriaeth eisoes ar waith.

Gwnaeth JP ddiolch i aelodau am eu barn a dywedodd ei fod yn fater heriol. Er y byddai'r fforwm yn annog y Cyngor i gynnal ymgynghoriad pellach â rhai grwpiau defnyddwyr, mae serch hynny yn cefnogi ymdrechion yr Awdurdod i wella mynediad.

**Cam Gweithredu -** TW i anfon barn y Fforwm Mynediad Lleol i’r Cabinet.

**6/ Crynodeb Rheoli Rhwydwaith -**

Rhoddodd DC ac ND drosolwg o'r ffigurau'n ymwneud â rheoli rhwydwaith a chael gwared ar rwystrau.

Tynnodd EM sylw at y ffaith y gall gatiau mochyn fod yn rhwystr i rai pobl anabl a bod angen ystyried yr holl ddefnyddwyr cyn eu gosod.

Gofynnodd JS a ellid rhannu canran o'r ffigur cyffredinol o'r materion nad ydynt wedi'u datrys.

**Cam gweithredu -** Bydd ND yn ceisio darparu canran ac yn anfon crynodeb o'r ffigurau fel y'u cyflwynir.

**7/ Adroddiad yr arolygydd -**

Rhoddodd AOH drosolwg o'r gwaith diweddar i wella'r rhwydwaith.

**Cam gweithredu -** Dylid anfon y ddogfen mewn neges e-bost gyda'r cofnodion.

**8/ Unrhyw Fater Arall**

Soniodd JS fod cais yn cael ei wneud am lwybrau amlddefnydd rhwng Pen y Ffordd a Brychdyn gan Gyngor Cymuned Penyffordd. Maes o law, bydd hyn yn cyrraedd yr Asiantaeth Priffyrdd. Dywedodd JH bod hyn wedi'i gynnig flynyddoedd yn ôl ond ei fod wedi'i roi o'r neilltu.

Rhoddodd TW drosolwg byr o Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas a'i reolaeth a'i strategaeth 10 mlynedd newydd.

Nid oedd unrhyw faterion eraill a daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.

Aeth yr aelodau am dro o gwmpas Dyffryn Maes Glas.

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar - 17 Hydref 2023.
6 Chwefror 2024.